UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

Ymgynghoriad ar y flwyddyn ysgol

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (os yn berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **12 Chwefror 2024** i::

Y Gangen Amser Ysgol
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: ArchwiliorDefnyddOAmserYsgol@llyw.cymru

Dewiswch bob un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

- ☐ 17 oed ac yn iau
- ✓ 18 oed ac yn hŷn
- ✓ Y gweithlu addysg
- ☐ Y sector twristiaeth
- ☐ Y sector gofal plant
- ✓ Gwaith llawn-amser (rhowch fanylion)
- ☐ Gwaith rhan-amser (rhowch fanylion)
- ☐ Rhiant neu ofalwr (Defnyddiwyd ‘rhiant’ fel term llaw fer i gynnwys mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, llys-rieni, gofalwyr sy'n berthnasau, theidiau a neiniau a gwarcheidwaid)
- ✓ Arall

Sylwadau ategol

Undeb athrawon – ymateb ar ran aelodau’r undeb, sy’n cynnwys athrawon, darlithwyr, tiwtoriaid.

Cwestiwn 1 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi'r ffordd rydym yn byw, yn dysgu ac yn gweithio heddiw?

Cytuno'n gryf	☐	Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Anghytuno'n gryf	☐

Nid ydym wedi ticio yr un o'r blychau uchod am nad ydym yn cytuno nac yn anghytuno. Teimlwn fod yr ymgynghoriad fel y mae a) wedi ei lunio mewn modd nad yw wedi ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, b) ni roddwyd sylw i'r calendr cymwysterau addysgol o ran arholiadau allanol c) ni roddwyd ystyriaeth fanwl a thrylwyr i les disgyblion o bob oedran ac ch) ni feddyliwyd yn ofalus am les teuluoedd o bob math wrth gynnig newidiadau.

Rydym yn barod i drafod newidiadau i'r calendr ysgol, os cynigir opsiynau a fydd yn cynnig gwell amodau i athrawon, disgyblion, staff ategol mewn ysgolion a theuluoedd. Er mwyn trafod opsiynau o'r fath yn ddeallus, bydd angen tystiolaeth gadarn, gyfredol i gefnogi'r opsiynau hynny. Rydym o'r farn nad oes tystiolaeth o'r fath yn ategu'r opsiynau presennol.

Cwestiwn 2 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi dysgwyr sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol?

Cytuno'n gryf	☐	Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Anghytuno'n gryf	☐

Rydym yn teimlo nad yw'r cynigion fel y maent yn cynnig gwell cefnogaeth i bob dysgwr sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd cynnig wythnos ychwanegol o wyliau ym mis Tachwedd yn golygu cost ychwanegol i deuluoedd – bydd angen sicrhau bod gwres mewn cartrefi, bydd angen pryd o fwyd cynnes ar ddysgwyr ym mis Hydref/Tachwedd. Mae disgyblion oed uwchradd yn gallu ennill arian ym misoedd yr haf, yn enwedig mewn ardaloedd twristaidd – cyfle sy'n rhoi profiad gwaith defnyddiol iddynt, yn ogystal ag arian poced. Ni fydd cyfle iddynt gael swydd i gael profiad gwerthfawr nac arian ychwanegol ym mis Tachwedd.

Byddai'r wythnos ychwanegol o wyliau ym mis Hydref/Tachwedd yn golygu y byddai disgyblion hŷn yn colli wythnos o addysgu a fyddai'n eu paratoi ar gyfer eu harholiadau allanol. Bydd yr arholiadau'n digwydd cyn yr wythnos sydd i'w hychwanegu at y tymor ysgol ym mis Gorffennaf.

Cwestiwn 3 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)?

Cytuno'n gryf	☐	Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Anghytuno'n gryf	☐

Rhaid cofio bod y cynnig arfaethedig yn sicrhau'r un faint o wyliau â'r drefn bresennol. A fydd cynnig pythefnos o wyliau ym mis Hydref/Tachwedd yn lleddfu unrhyw heriau i rieni dysgwyr ag ADY? Credwn mai cyfrifoldeb y tu hwnt i gyfrifoldeb ysgolion yw darparu cefnogaeth i rieni yn ystod y gwyliau. Mae rhai darpariaethau ar gyfer dysgwyr ADY eisoes yn bodoli mewn rhai awdurdodau lleol ac yn cynnig cefnogaeth i rieni a disgyblion. Byddai sicrhau bod cefnogaeth i deuluoedd yn golygu bod dysgwyr ag ADY yn cael amrywiaeth o gyfleoedd ac ni fyddai baich gormodol ar eu rhieni. Un o'r pryderon a nodir yn yr ymgynghoriad yw bod dysgwyr yn colli gwybodaeth yn ystod cyfnod o wyliau. Ydy pump/pedair wythnos o wyliau haf yn lle chwech wythnos yn mynd i wneud gwahaniaeth mawr yn hynny o beth? A fydd pythefnos o wyliau ym mis Hydref/Tachwedd yn creu'r un fath o broblem? A wnaed ymchwil o ran y materion hyn? Cyn dod i benderfyniad, credwn yn gryf fod angen tystiolaeth gadarn, gyfredol i ategu bob cynnig.

Cwestiwn 4 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y gallai'r calendr ysgol gael ei lunio'n well i gefnogi llesiant athrawon a/neu ddysgwyr a lleihau blinder?

Cytuno'n gryf	☐	Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Anghytuno'n gryf	☐

Fel undeb sy'n brwydro dros lesiant athrawon, buasem yn cefnogi unrhyw ddatblygiadau a fyddai'n lliniaru ar y blinder sy'n llethu athrawon. Nid ydym yn teimlo fod yr opsiynau a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn yn mynd i'r afael â'r broblem waelodol – wrth estyn gwyliau'r haf yn 2025-2026, yr hyn a wneir yw byrhau tymor y gaeaf drwy gynnig bythefnos o wyliau hanner tymor, ond mae tymor yr haf yn cael ei ymestyn, gan olygu y bydd yr hanner tymor olaf yn wyth wythnos o thri diwrnod o hyd.

Nid yw diwygio'r calendr ysgol ynddo'i hun yn mynd i ddatrys blinder a llesiant athrawon. Lleihau llwyth gwaith, sicrhau dosbarthiadau llai a mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad a yw rhai o'r agweddau sy'n peri'r problemau mwyaf o ran blinder a llesiant ac mae'n bwysig mynd i'r afael â'r materion hynny.

Er ein bod yn cydnabod bod tymor yr hydref fel y saif ar hyn o bryd yn cyfrannu'n andwyol at flinder athrawon, eto i gyd nid yw'r cynlluniau ailstrwythuro arfaethedig yn mynd at wraidd y mater ac nid ydynt yn datrys y problemau sy'n bodoli ar hyn o bryd o fewn y proffesiwn.

Cwestiwn 5 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno wythnos ychwanegol o wyliau (wedi'i thynnu oddi ar wyliau'r haf) i rannu'r tymor hiraf (yr hydref)?

Cytuno'n gryf	☐	Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Anghytuno'n gryf	☐

Er ein bod (fel y nodwyd uchod) yn cydnabod bod tymor yr hydref yn hir, nid ydym yn cytuno gyda'r cynnig i docio wythnos oddi ar wyliau'r haf. Wrth rannu'r tymor hwyaf (tymor yr hydref), mae'r 'datrysiad' yn golygu y bydd ail hanner tymor yr haf yn 2026 yn 43 diwrnod (8 wythnos a 3 diwrnod). Ni thybiwn fod unrhyw werth addysgiadol i ychwanegu wythnos at dymor yr haf – gall y tywydd fod yn grasboeth, mae athrawon ar eu gliniau ac wedi llwyr ymlâdd erbyn diwedd y flwyddyn academaidd ac mae'n dra thebygol y bydd rhieni yn tynnu eu plant o'r ysgol i fynd ar wyliau yr wythnos honno, a hynny am nifer o resymau e.e. y traddodiad o fynd ar wyliau yn ystod y cyfnod hwnnw, y gystadleuaeth fydd o fewn llefydd gwaith (heblaw ysgolion) i gael gwyliau o fewn ffenestr pum wythnos neu bedair wythnos a hefyd amseriad y Sioe Frenhinol. Mae cyflwyno wythnos ychwanegol o wyliau ym mis Hydref hefyd yn amharu ar faint o amser sydd ar gael i baratoi disgyblion hŷn ar gyfer arholiadau allanol.

Mae'r cynnig arfaethedig yn golygu na fydd ysgolion yn torri am wyliau'r haf tan ar ôl y Sioe Frenhinol. Mae unrhyw un sy'n byw ac yn gweithio mewn ardal amaethyddol yn ymwybodol iawn pa mor bwysig yw'r wythnos hon i'r gymuned amaethyddol. Mae'r Sioe Frenhinol yn un o ddigwyddiadau diwylliannol pwysicaf Cymru a dylid parchu hynny wrth bennu tymhorau ysgolion.

Er mwyn cynnig pythefnos o wyliau hanner tymor ym mis Hydref, mae angen rhoi ystyriaeth fanylach i amseriad gwyliau'r haf – ai torri am wyliau ddiwedd mis Gorffennaf yw'r adeg orau i ddechrau gwyliau'r haf?

Cwestiwn 6 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chael y hyblygrwydd i ddatgysylltu (gwahanu) gwyliau'r gwanwyn â gŵyl gyhoeddus y Pasg?

Cytuno'n gryf	✓	Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Anghytuno'n gryf	☐

Rydym o'r farn bod cael tymhorau cytbwys o ran hyd yn bwysicach na glynu wrth amseriad gŵyl sy'n newid o flwyddyn i flwyddyn. Bydd dyddiadau pwysig y Pasg yn parhau yn wyliau ysgol, gan eu bod yn wyliau banc.

Cwestiwn 7 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno wythnos ychwanegol o wyliau ym mis Mai neu fis Mehefin (wedi'i thynnu oddi ar wyliau'r haf a'i hychwanegu at wyliau presennol mis Mai), er mwyn creu tymhorau cyson o ran hyd?

Cytuno'n gryf	☐	Cytuno	☐	Anghytuno	✓	Anghytuno'n gryf	☐

Rydym yn cydnabod y gall y tywydd fod yn braf yn y cyfnod hwn ac rydym yn deall hefyd y gallai'r wythnos ychwanegol fod o gymorth i'r athrawon hynny a fydd wedi bod yn brysur iawn yn ystod Eisteddfod yr Urdd.

Fodd bynnag, gan y bydd yr wythnos hon yn debygol o ddigwydd yng nghanol arholiadau allanol, bydd yn creu pwysau ychwanegol ar staff uwchradd. O gofio'r pwyslais mawr a roddir ar ganlyniadau arholiadau allanol, yn ogystal ag awydd athrawon i roi'r cyfleoedd gorau posibl i'w dysgwyr, mae perygl y gallai athrawon uwchradd fod o dan bwysau i gynnig gwersi ychwanegol i'r dysgwyr, er mwyn eu paratoi ar gyfer arholiadau allanol.

Yn ddelfrydol dylid sicrhau bod yr hanner tymor yn digwydd ar amser a fydd yn golygu nad yw'r hanner tymor olaf yn hanner tymor hir. Os na ddylid caniatáu i wyliau banc y Pasg lywio dyddiad gwyliau ysgol, dylid holi'r cwestiwn hefyd a ddylai gŵyl y banc ym mis Mai lywio gwyliau hanner tymor? Wedi dweud hynny, dylid hefyd barchu amseriad Eisteddfod yr Urdd yn yr un modd ag y dylid parchu amseriad y Sioe Frenhinol.

Cwestiwn 8 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â chynnal diwrnodau canlyniadau arholiadau Safon Uwch, Safon UG a TGAU yn ystod yr un wythnos?

Cytuno'n gryf	☐	Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Anghytuno'n gryf	✓

O roi canlyniadau arholiadau allanol yn ystod yr un wythnos, golyga hyn y bydd pwysau mawr ar aelodau staff mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig yr arweinwyr. Os bydd y gwyliau haf yn cael eu cwtogi a'r canlyniadau yn parhau i gael eu cyflwyno yn ystod gwyliau'r haf (dros un wythnos neu dros bythefnos), bydd hyd yn oed mwy o bwysau ar arweinwyr. Mae hi'n ddigon anodd recriwtio arweinwyr i'n hysgolion ar hyn o bryd; gallai sefyllfa fel hyn gynyddu'r problemau. Dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i gyhoeddi canlyniadau yn ystod y tymor, fel bo arweinwyr ysgolion uwchradd yn cael yr un rhyddid i gael gwyliau ag y mae eu cymheiriaid mewn ysgolion cynradd. Nid yw'n deg disgwyl i benaethiaid ddychwelyd i'r gwaith yn ystod eu 'gwyliau'.

Cwestiwn 9 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 1: Cadw at y calendr ysgol presennol?

Cytuno'n gryf	☐	Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Anghytuno'n gryf	☐

Credwn y dylid cadw at opsiwn 1 ar hyn o bryd, ond nid ydym yn gwrthwynebu newid yn ei hanfod. Yr hyn yr ydym yn ei wrthwynebu yw'r ffaith na chafwyd ymgysylltiad digonol â rhanddeiliaid ac ni ymchwiliwyd yn drwyadl i'r amrywiol opsiynau posibl, cyn lansio'r ymgynghoriad. Mae angen archwilio opsiynau yn dipyn manylach a rhoi ystyriaeth wirioneddol i holl oblygiadau unrhyw newid. O beidio â gwneud hynny, bydd y proffesiwn yn wynebu problemau a grëwyd yn sgil canlyniadau anfwriadol yr opsiynau arfaethedig.

Cwestiwn 10 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 2 a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig: calendr ysgol â phythefnos o wyliau ym mis Hydref, gwyliau'r gwanwyn ar yr un pryd fwy neu lai bob blwyddyn (ni waeth pryd y bydd y Pasg yn disgyn), a 5 wythnos o wyliau dros yr haf?

Cytuno'n gryf	☐	Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Anghytuno'n gryf	☐

Gweler sylwadau'r cwestiynau blaenorol.

Cwestiwn 11 – I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno ag Opsiwn 3: calendr ysgol â phythefnos o wyliau ym mis Hydref, gwyliau'r gwanwyn ar yr un pryd fwy neu lai bob blwyddyn (ni waeth pryd y bydd y Pasg yn disgyn), pythefnos o wyliau ym mis Mai, a 4 wythnos o wyliau dros yr haf?

Cytuno'n gryf	☐	Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Anghytuno'n gryf	☐

Gweler sylwadau'r cwestiynau blaenorol.

Cwestiwn 12 – Ar gyfer 2025 i 2026, i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyddiadau arfaethedig a nodwyd ar gyfer y tymhorau yn Opsiwn 2 ac Opsiwn 3?

Cytuno'n gryf	☐	Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Anghytuno'n gryf	✓

Ni allwn gytuno ag opsiwn lle ceir 43 diwrnod yn ail hanner tymor yr haf – Dydd Llun, 1 Mehefin hyd ddydd Mercher, 29 Gorffennaf 2026. Symud problem o un cyfnod i gyfnod arall a wneir yma ac nid yw'n datrys dim.

Cwestiwn 13 – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

- **Llai o bobl yn mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol, gan y bydd y ffenestr wyliau yn llai. Llai o gystadlu yn yr Eisteddfod. Effaith ar wyliau diwylliannol Cymru – Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod.**
- **Mae chwe wythnos o wyliau'n rhoi cyfle i ddysgwyr o deuluoedd lle siaredir y Gymraeg a theuluoedd lle na siaredir y Gymraeg i ymarfer yr iaith o fewn cyd-destunau y tu hwnt i'r ysgol.**
- **Mae'r Sioe Frenhinol yn ddigwyddiad pwysig i'r CFFI – mudiad y mae 62% o'i aelodau yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf a mudiad sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg**

Cwestiwn 14 – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r cynigion er mwyn sicrhau:

- ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a
- nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

Sylwadau ategol

Er mwyn sicrhau cyfleoedd mynych i ddisgyblion ymarfer eu Cymraeg ac na fyddai gwyliau yn amharu ar eu cyfleoedd i ymarfer y Gymraeg, byddai'n fuddiol sicrhau cyfleoedd allgyrsiol i ddisgyblion ymarfer yr iaith.

Cwestiwn 15 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

Sylwadau ategol

Teimlwn fod yr ymgynghoriad hwn wedi ei gyflwyno ar ffurf hollol wahanol i ymgyngoriadau eraill Senedd Cymru ac mae hynny'n siom. Ceir 11 cwestiwn, lle na cheir yr opsiwn o nodi 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno', opsiwn a gyflwynir fel rheol mewn ymgyngoriadau. Fel rheol, ceir blwch i roi 'Sylwadau ategol' ar ddiwedd pob cwestiwn. Yn yr achos hwn, ni cheir blwch 'Sylwadau ategol' ar gyfer y mwyafrif o gwestiynau. Ymddengys hyn yn annheg a rhoddir yr argraff, gwir ai peidio, nad oes awydd i glywed safbwyntiau gwahanol. Gan ein bod yn teimlo'n gryf iawn ynghylch hyn, rydym wedi ychwanegu sylwadau ategol ar ôl yr holl gwestiynau.

Er bod yr ymgynghoriad yn nodi mai'r bwriad yw cyflwyno tymhorau ysgol mwy cytbwys o ran hyd, eto i gyd mae'r hanner tymor olaf yn y calendr arfaethedig ar gyfer 2025-26 yn 43 diwrnod o hyd (8 wythnos a 3 diwrnod) a hynny ar adeg pan fo'r tywydd yn gallu bod yn grasboeth, pan fo athrawon a phlant wedi blino'n lân ar ddiwedd blwyddyn ysgol a phan fo rhieni yn dra thebygol o dynnu plant allan o'r ysgol i fynd ar wyliau. Gan fod y tymor hwn yn cynnwys wythnos y Sioe Frenhinol, gellir rhagweld lefel uchel o absenoldeb. Yn ogystal, ni fydd athrawon a staff sy'n perthyn i'r gymuned amaethyddol yn gallu mynychu'r sioe. Nid ydym yn teimlo bod y 'datrysiad' a gynigir yn mynd i ddatrys 'tymhorau hir'. Fel y mae'n sefyll, gwneir

‘ymgais’ i ddatrys un broblem ond y cyfan sy’n digwydd yw creu problem newydd.

Os caiff y cynigion hyn eu gwireddu, mae’n dra thebygol y bydd canlyniadau anfwriadol, canlyniadau nad oes neb wedi rhoi sylw iddynt hyd yma. Mae’r cynigion arfaethedig yn bellgyrhaeddol ac nid ar chwarae bach y dylid eu gwireddu. O ystyried yr holl newidiadau sy’n wynebu ysgolion ar hyn o bryd, oni ddylid osgoi mwy o newidiadau a chanolbwyntio yn hytrach ar y newidiadau sydd eisoes wedi eu trefnu e.e. y Cwricwlwm i Gymru, TGAU newydd, TAAU, Y Cynnig Llawn, darpariaethau ar gyfer ADY ayb.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐